Dŵr Cymru
Welsh Water

# Amodau a thelerau safonol ar gyfer gosod Cofnodwr Data Adwerthwr ar Gyfarpar Dŵr Cymru

dwrcymru.com

# Amodau a thelerau ar gyfer gosod Cofnodwr Data Adwerthwr ar Gyfarpar Dŵr Cymru

## Cynnwys

Amodau a thelerau ar gyfer gosod Cofnodwr Data Adwerthwr ar Gyfarpar Dŵr Cymru ................. 2

Rheoli Fersiynau ........................................................................................................ 2

1.0 Diffiniadau a Dehongliadau ................................................................................. 3

2.0 Cyflwyno Hysbysiad o fwriad i osod Cofnodwr Data, ac ymateb DCWW .............................. 3

3.0 Cyrchu asedau DCWW ....................................................................................... 3

4.0 Gosod Cofnodwr Data a'r Cyfarpar cysylltiedig ....................................................... 4

5.0 Y Taliadau ....................................................................................................... 5

6.0 Cynnal a chadw mesurydd DCWW ........................................................................ 5

7.0 Atebolrwydd ..................................................................................................... 5

Atodlen 1 - Peryglon cyffredin hysbys y mae angen eu rheoli wrth weithio yn neu'n agos at siambrau mesuryddion DCWW a'r cyfarpar cysylltiedig. ........................................................ 6

## Rheoli Fersiynau

| Rhif y Fersiwn a'r Dyddiad Cyhoeddi | Addasiadau i'r cyhoeddiad blaenorol |
|---|---|
| 4.0 – 22 Mawrth 2021 | Ychwanegu tabl Cynnwys a rheoli fersiynau a diweddaru'r hyperddolenni |
| 5.0 – 20 Ionawr 2022 | Diweddariad i 4.2 i eglurhau pryd y mae angen rhannwr |
| 6.0 – 21 Chwefror 2023 | Diweddariad i'r ddogfen Taliadau Cyfanwerthu |
| 7.0 – 02 Ionawr 2024 | Diweddaru linciau i wefannau |

# 1.0 Diffiniadau a Dehongliadau

Yn y ddogfen hon, mae i'r geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron a ganlyn oni bai bod hynny'n anghyson â'r cyd-destun.

**Adwerthwr** yw deiliad Awdurdod Adwerthu Cyfyngedig (awdurdod a disgrifir ym Mharagraff 6 o atodlen 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 h.y. awdurdod i ddefnyddio systemau cyflenwi Ymgymerydd sy'n gyfangwbl neu'n rhannol yng Nghymru at ddibenion caniatáu i'r Adwerthwr gyflenwi Gwasanaethau Adwerthu ar gyfer Safleoedd Cymwys sy'n defnyddio 50 megalitr neu ragor o ddŵr y flwyddyn).

**Amserlen Bilio** yw'r amserlen a gyhoeddwyd ar dudalennau Cyfanwerthu gwefan DCWW.

**Ased DCWW** yw ased sy'n eiddo i DCWW gan gynnwys safle.

**Cofnodwr Data** yw'r Cofnodwr Data i gael ei osod gan yr Adwerthwr ar fesurydd DCWW.

**Cofnodwr Data DCWW** yw Cofnodwr Data sy'n eiddo i Fusnes Cyfanwerthu DCWW.

**Cyfarpar DCWW** yw mesurydd neu fesuryddion DCWW sy'n cofnodi'r defnydd o ddŵr ac unrhyw gyfarpar dŵr cysylltiedig, gan gynnwys y ffitiadau angenrheidiol i hwyluso Cofnodi Data gan fusnes Cyfanwerthu DCWW.

**DCWW** yw Dŵr Cymru Cyfyngedig ac unrhyw aelodau o staff sydd yng nghyflogaeth uniongyrchol DCWW neu gontractwyr sy'n gweithredu ar ran DCWW.

**Tâl** yw'r tâl/taliadau am wasanaethau a ddisgrifir yn Nogfen Taliadau Cyfanwerthu cyhoeddedig DCWW.

# 2.0 Cyflwyno Hysbysiad o fwriad i osod Cofnodwr Data, ac ymateb DCWW

2.1 Bydd yr Adwerthwr yn cyflwyno ffurflen S/03 i DCWW gan roi o leiaf 5 Diwrnod Busnes o'i fwriad i osod Cofnodwr Data ar gyfarpar DCWW, gan gynnwys manylion manylebau'r Cofnodwr Data.

2.2 Bydd DCWW yn adolygu cais yr Adwerthwr ac yn ymateb cyn pen 5 Diwrnod Gwaith ar ôl i ffurflen S/03 ddod i law gan gadarnhau a fydd yn caniatáu i'r Cofnodwr Data arfaethedig gael ei osod ar Gyfarpar DCWW ai peidio.

# 3.0 Cyrchu asedau DCWW

3.1 Mae'r Adwerthwr yn cytuno i ddilyn y canllawiau isod lle bo angen iddo gyrchu Asedau DCWW i osod Cofnodwr Data ar Gyfarpar DCWW:

a) Ar gyfer gwaith neu arolygon lle mae angen i unrhyw drydydd parti / contractwr gyrchu Ased DCWW, rhaid gofyn am ganiatâd trwy'r broses Cyrchu Asedau gan ddefnyddio ffurflen AF02b.

b) Ni cheir cyrchu'r ased nes bod rheolwr asedau'r ardal leol wedi rhoi caniatâd i gyrchu Ased DCWW. Ni chaiff unrhyw drydydd parti gyrchu unrhyw un o Asedau DCWW heb yn wybod i reolwr yr ased na heb eu caniatâd.

c) Rhaid i DCWW fod yn ymwybodol pan fo unrhyw un am gyrchu un o Asedau DCWW neu Gyfarpar DCWW. Ni ddylai ceisiadau rhesymol ac amserol fod yn broblem, ond gall rhesymau gweithredol atal mynediad o'r fath ar unrhyw adeg.

d) Bydd gan reolwr safle pwrpasol DCWW gyfrifoldeb rheolwr a rheolaeth dros yr amodau ar gyfer caniatáu mynediad o'r fath.

Mae gan holl staff DCWW bŵer y cwmni i gyfarwyddo unrhyw drydydd parti neu gontractwr i roi'r gorau i weithio ar unrhyw weithrediadau y maen nhw'n teimlo a allai achosi anaf neu afiechyd i unrhyw berson neu ddifrod i eiddo. Mae rhestr o'r peryglon cyffredin hysbys y mae angen eu rheoli wrth weithio yn neu ger siambrau mesuryddion a chyfarpar DCWW yn Atodlen 1. Fodd bynnag, ni fydd DCWW yn goruchwylio'r gwaith, a'r Adwerthwr fydd yn gyfrifol am gyflawni ei asesiad ei hun o'r risg.

e) NI fydd Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu DCWW yn trefnu mynediad at unrhyw un o Asedau DCWW ar gyfer unrhyw drydydd parti. Rhaid i'r caniatâd ddod gan y rheolwr asedau lleol.

f) Y gofynion sylfaenol er mwyn i drydydd parti / contractwr weithio ar ased DCWW yw tystiolaeth o system rheoli Iechyd a Diogelwch addas a digonol ynghyd â chyngor medrus ar Iechyd a Diogelwch. Caiff hyn ei gyflawni ar ffurf asesiad ac achrediad gan gorff allanol annibynnol. Mae DCWW yn cydnabod y cyrff canlynol ar hyn o bryd:

- Achrediad gan un o'r cyrff Achredu Cynlluniau Caffael Diogel (SSIP); neu
- Achilles Verify.

## 4.0 Gosod Cofnodwr Data a'r Cyfarpar cysylltiedig

4.1 Os nad oes uned pwls gyfredol ar y mesurydd, rhaid i'r Adwerthwr ddarparu ei uned pwls ei hun.

4.2 Gall DCWW fynnu bod yr Adwerthwr yn gosod rhannwr ar ei fesurydd lle bo Cofnodwr Data cyfredol gan DCWW.

4.3 Rhaid i'r Adwerthwr sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Rheoli Traffig gan hysbysu'r Awdurdod Priffyrdd perthnasol am ei fwriad i gyflawni'r gwaith.

4.4 Rhaid i'r Adwerthwr ddarparu cadarnhad ar gyfer DCWW fod ei offer wedi cael ei osod cyn pen dau ddiwrnod gwaith ar ôl i'r gwaith gosod gael ei gyflawni, a darparu ffotograff sy'n dangos y Cofnodwr Data yn ei le.

4.5 Rhaid labelu'r holl Gofnodwyr Data'n glir gan nodi enw a manylion cyswllt y perchennog.

# 5.0 Y Taliadau

5.1 Os yw'r Adwerthwr neu eu Contractwr yn difrodi offer DCWW wrth osod y Cofnodwr Data, caiff cost trwsio neu adnewyddu'r cyfarpar ei godi ar yr Adwerthwr yn unol â Dogfen Taliadau Adwerthu DCWW a'r Amserlen Bilio.

# 6.0 Cynnal a chadw mesuryddion DCWW

6.1 Os oes angen i DCWW gyflawni gwaith ar unrhyw ddarn o'i Gyfarpar neu ei ddisodli, bydd yn ailgysylltu'r Cofnodwr Data ar gost, gan gynnwys darparu uned/cebl pwls newydd (os oes angen). Ni chaiff yr ailgysylltiad ei gyflawni adeg cyflawni'r gwaith ond ar y cyfle nesaf sydd ar gael.

6.2 Bydd DCWW yn hysbysu'r Adwerthwr cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl cyflawni'r gwaith sydd wedi arwain at ddatgysylltu'r Cofnodwr Data.

# 7.0 Atebolrwydd

7.1 Mae'r Adwerthwr yn cytuno y bydd yn cymryd cyfrifoldeb dros gyflawni ei asesiad risg ei hun, ni fydd DCWW yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros oruchwylio mynediad trydydd parti at Asedau/Cyfarpar DCWW.

# Atodlen 1 - Peryglon cyffredin hysbys y mae angen eu rheoli wrth weithio yn neu'n agos at siambrau mesuryddion DCWW a'r cyfarpar cysylltiedig.

***(Nid yw'r rhestr o beryglon isod yn gynhwysfawr. Rhaid i drydydd partïon gyflawni asesiad risg penodol addas a digonol ar bob safle cyn dechrau unrhyw waith; ni fydd DCWW yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb dros oruchwylio trydydd partïon)***

| Perygl | Risg | Rheolaeth |
|---|---|---|
| | | |
| Gweithio yn y briffordd | Anaf personol / trydydd parti. Taro gan gerbyd sy'n symud | Achrediad gwaith stryd. Goleuadau, amddiffyniad ac arwyddion. |
| Codi a symud gorchuddion siambrau | Anaf personol. Difrod i gyfarpar o'u gollwng | Archwiliad gweledol o gyflwr y gorchudd. Glanhau a symud unrhyw falurion o'r golfach neu unrhyw fecanwaith arall cyn agor. Offer sy'n addas ar gyfer y gwaith. Hyfforddiant trin â llaw. Staff ffit a medrus. |
| Mannau cyfyng | Mygu. Anaf personol | Hyfforddiant mannau cyfyng i safon City & Guilds 6150. Offer Monitro Nwy a gweithio fesul 2 os oes angen yn dilyn asesiad risg a system weithio ddiogel. |
| Ffyn nodwydd / Offer Miniog / Bio-beryglon | Heintiad | PPE addas a hyfforddiant ymwybyddiaeth am ffyn nodwydd. Os na chafwyd hyfforddiant gwaredu, cysylltwch â DCWW i drefnu gwaredu. |
| Gweithio ar uchder / mynd i mewn ac allan o siambrau | Syrthio o uchder / anaf personol | Hyfforddiant addas a digonol ar weithio ar uchder / Cyfarpar diogelu personol. Ysgolion symudol sy'n addas at y dasg. |
| Arferion hylendid gwael | Halogi cyflenwadau dŵr | Hyfforddiant mewn arferion hylendid dŵr. Deiliad cerdyn hylendid dŵr. Darparu toddiant Chloros i ddiheintio'r holl ffitiadau |
| Piblinellau dŵr pwysedd uchel | Anaf personol / difrod i'r cyfarpar allweddol (PRV ac ati) | Deall piblinellau dan bwysedd a'r risgiau cysylltiedig. Rhaid ymgynghori â'r staff gweithredol os bwriedir mynd i'r siambr. |
| Amgylchedd Gwaith Cyffredinol | Anafiadau personol a thrydydd parti | Hyfforddiant asesu risg. Asesiadau risg a datganiadau o risg sy'n addas ac yn ddigonol ar gyfer y gweithgaredd. |
| Prosesau diwydiannol cyfagos neu gerllaw | Halogiad yr ardal waith / siambr. Halogydd ffisegol neu atmosfferaidd yn dod i mewn - anaf personol. | Asesiad risg deinamig o'r ardal waith. Atal mynediad os yw'r amodau'n broblematig. Uwchgyfeirio at DCWW fel perchennog yr ased. |